

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Cyd-bwyllgor Comisiynu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2024.

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cyd-bwyllgor Comisiynu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2024. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

09 Chwefror 2024

RHAN 1

1. Disgrifiad

1.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfansoddiad ac aelodaeth Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru (y "Cyd-bwyllgor") gan gynnwys ei weithdrefnau a'i drefniadau gweinyddol. Mae Cyfarwyddydau Cyd-bwyllgor Comisiynu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2024, a wnaed ar 5 Chwefror 2024, yn darparu y bydd y Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru yn gweithio ar y cyd i arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â chynllunio a sicrhau gwasanaethau a bennir yn y Cyfarwyddydau neu a nodir gan y Byrddau Iechyd Lleol. Bydd y Rheoliadau yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfansoddiad ac aelodaeth y Cyd-bwyllgor, deiliadaeth, penodi, atal dros dro a thynnu aelodau, ynghyd ag unrhyw ofynion sy'n ymwneud â'u cymhwysra i ymgymryd â'u rolau, a'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd a thrafodion.

Bydd y Byrddau Iechyd Lleol yn sefydlu'r Cyd-bwyllgor ar 1 Ebrill 2024.

Bydd y Cyd-bwyllgor yn disodli Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim

3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae'r rheoliadau yn cael eu gwneud o dan y canlynol:
Adrannau 11(6), 203(9) a (10) ynghyd â pharagraffau 4 a 5 o Atodlen 2 i Ddeddf y GIG (Cymru) 2006. Mae'r pwerau hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau ynghylch penodiad a chyfansoddiad unrhyw bwyllgorau o Fwrdd Iechyd Lleol (a all gynnwys personau nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd Iechyd Lleol).

3.2 Mae'r Rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Diben y Rheoliadau yw sefydlu Cyd-bwyllgor newydd a fydd yn gyfrifol am gomisiynu (gan gynnwys cynllunio, sicrhau a monitro) y gwasanaethau hynny a ddirprwyir iddo gan y Byrddau Iechyd Lleol a/neu fel y cyfarwyddir gan Weinidogion Cymru. Dim ond yng Nghymru y bydd y Rheoliadau yn gymwys.

- 4.2 Mae'r trefniadau comisiynu cenedlaethol presennol ar gyfer Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys wedi bod ar waith ers eu sefydlu yn 2010 a 2015 yn y drefn honno. Yn ystod y cyfnod hwn, mae newidiadau sylweddol wedi digwydd yn y GIG yng Nghymru, ac yn fwy diweddar, gwelwyd heriau digynsail o ganlyniad i'r pandemig.
- 4.3 Yn ogystal, er bod tystiolaeth dda o ddatblygu ac aeddfedrwydd cynyddol yn y ddau Gyd-bwyllgor, mae bylchau o hyd, a chyfleoedd coll o bosibl yn y trefniadau comisiynu cenedlaethol presennol yng Nghymru. Cafodd hyn ei gydnabod yn *Cymru Iachach* a oedd yn cynnwys nifer o gamau gweithredu, gan gynnwys ymrwymiad i adolygu swyddogaethau comisiynu cenedlaethol, ochr yn ochr â sefydlu Gweithrediaeth y GIG.
- 4.4 Cafodd adolygiad annibynnol ei gynnal gan ddod i ben ym mis Mai 2023, a gwnaed nifer o argymhellion. Un o'r argymhellion hynny oedd cyfuno Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys a'r Uned Gomisiynu Cydweithredol Genedlaethol er mwyn ffurfio un Cyd-bwyllgor. Byddai hyn yn symleiddio'r trefniadau presennol ac yn eu gwneud yn fwy effeithlon. Byddai hefyd yn creu un man canolog o arbenigedd ynghylch comisiynu yn y GIG yng Nghymru. Ym mis Gorffennaf 2023, derbyniodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol argymhellion yr adolygiad.
- 4.5 Rhoddwyd rhaglen sefydlu i weithredu'r argymhellion ar waith. Mae hyn yn cynnwys Tîm a Bwrdd Gweithredu yn y GIG a Bwrdd Goruchwylio yn Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei gadeirio gan Uwch-swyddog Cyfrifol Llywodraeth Cymru.
- 4.6 Bydd gan y Cyd-bwyllgor Comisiynu newydd gylch gwaith ehangach na'r Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys, gan ymgymryd â rôl gefnogi arbenigol i fyrddau iechyd er mwyn datblygu gweithdrefnau comisiynu cenedlaethol, rhanbarthol a rhwng byrddau iechyd. Bydd yn helpu i feithrin capasiti comisiynu ar draws y system iechyd yng Nghymru, gan sicrhau cysondeb o ran fframweithiau comisiynu a chanlyniadau gwell i gleifion. Bydd y fframweithiau hyn yn sicrhau bod y systemau ansawdd priodol a gweithdrefnau sicrwydd a rheoli ansawdd ar waith ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir. Bydd hefyd yn sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, fod gwasanaethau teg yn cael eu darparu ar gyfer poblogaeth Cymru.
- Bydd mwy o fewnbwn iechyd y cyhoedd hefyd yn dod i'r amlwg yn y trefniadau comisiynu cenedlaethol newydd gan gynnwys o ran anghenion y boblogaeth, gan sicrhau canlyniadau gwelli'r boblogaeth.
- 4.7 Statws y Cyd-bwyllgor fydd Cyd-bwyllgor y Byrddau Iechyd Lleol ac felly ni fydd yn gorff newydd gyda'i hunaniaeth gyfreithiol ei hun.

5. Ymgynghori

5.1 Nid oes dyletswydd statudol i ymgynghori ar reoliadau a wneir o dan adrannau 11(6), 203(9) a (10) ynghyd â pharagraffau 4 a 5 o Atodlen 2 i Ddeddf y GIG (Cymru) 2006. Fodd bynnag, mae'r Byrddau Iechyd Lleol a'r timau y mae sefydlu'r Cyd-bwyllgor newydd yn effeithio arnynt i gyd yn cael eu cynnwys a'u cynrychioli yn strwythur y rhaglen drwyddo draw. Mae cynrychiolaeth hefyd yn y Bwrdd Goruchwyllo. Mae ymgysylltu â staff yr effeithir arnynt wedi dechrau. Yn ogystal, mae gweithgarwch ymgynghori drwy Raglen Newid Sefydliadol wedi'i sefydlu, gan gael ei lywio gan ofynion Polisi Newid Sefydliadol GIG Cymru ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol.

RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Yr opsiynau

Yr opsiynau a ystyriwyd:

- a) Yr opsiwn sylfaenol fyddai cadw'r *status quo* a chadw'r trefniadau a'r strwythurau comisiynu cenedlaethol presennol.
- b) Ymgorffori argymhellion yr adolygiad annibynnol i swyddogaethau comisiynu. Cyflwynodd yr adolygiad nifer o gamau y dylid eu gweithredu yn y tymor byr er mwyn gwella'r trefniadau comisiynu cenedlaethol. Nid oedd yr adolygiad yn argymhell gwelliannau i drefniadau comisiynu gan barhau â'r strwythurau presennol. Un o'r camau gweithredu allweddol oedd sefydlu Cyd-bwyllgor newydd, sef diben y Rheoliadau hyn.

7. Costau a manteision

- a) Nid yw cadw'r *status quo* presennol yn opsiwn. Ymrwymodd *Cymru Iachach* i adolygu'r swyddogaethau comisiynu cenedlaethol. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn a daeth i ben ym mis Mai 2023. Nododd yr adolygiad annibynnol fod rhai diffygion sylfaenol yn y swyddogaethau comisiynu presennol a hynny yn sgil diffyg eglurder o ran atebolrwydd a threfniadau sicrwydd cyffredinol yn ogystal â diffyg eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau rhwng y Cyd-bwyllgorau a'r Byrddau Iechyd Lleol. Un o brif argymhellion yr adolygiad oedd creu un endid newydd fel un man canolog o arbenigedd ynghylch comisiynu yng Nghymru. Cydnabuwyd y byddai angen is-ddeddfwriaeth i ddeddfu hyn. Nid amlinellwyd goblygiadau ariannol yr argymhellion yn yr adroddiad. Fodd bynnag, bydd yr adnoddau presennol yn cael eu defnyddio i fwrw ymlaen â gweithredu'r argymhelliad.
- b) Mae nifer o fanteision yn deillio o sefydlu un corff comisiynu newydd sydd â threfniadau comisiynu cryfach. Mae'r rhain yn cynnwys:
 - symleiddio'r trefniadau presennol, a'u gwneud yn fwy effeithlon, gan sicrhau arbenigedd o fewn un Cyd-bwyllgor
 - cryfhau trefniadau craffu a sicrwydd
 - helpu i feithrin capasiti comisiynu ar draws y system iechyd gan ddatblygu gweithdrefnau comisiynu cryfach yn rhanbarthol a rhwng Byrddau Iechyd.
 - helpu i fynd i'r afael ag unrhyw risg o anghydraddoldebau o ran mynediad at wasanaethau
 - cyfle i fynd i'r afael â bylchau a chyfleoedd coll yn y prosesau comisiynu presennol
 - costau cyfle wrth gomisiynu drwy un cyd-bwyllgor newydd
 - osgoi gwaith yn gorgyffwrdd

- cyfle i gynyddu mewnbwn iechyd y cyhoedd i weithdrefnau comisiynu

Ni ddisgwylir y bydd costau ychwanegol gan y bydd costau sy'n gysylltiedig â sefydlu'r Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru newydd yn cael eu hariannu gan gyllidebau presennol Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys a'r Uned Gomisiynu Cydweithredol Genedlaethol. Bydd costau sydd ynghlwm wrth unrhyw swyddogaethau comisiynu eraill yn cael eu trosglwyddo i'r Cyd-bwyllgor newydd.

Cyllideb flynyddol Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yw £800 miliwn ac mae 88.35 o staff WTE.

Cyllideb flynyddol y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys yw £239 miliwn ac mae 5.4 o staff WTE.

Cyllideb flynyddol yr Uned Gomisiynu Cydweithredol Genedlaethol yw £2.1 miliwn ac mae 26.4 o staff WTE. Yn rhan o'r gyllideb hon gwerth £2.1 miliwn y mae'r gyllideb ar gyfer 5.40 o staff y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys.

Bydd dyraniadau cyllideb y sefydliadau presennol yn cael eu trosglwyddo i'r Byrddau Iechyd Lleol a bydd y cyd-bwyllgor newydd yn anfonebu'r Byrddau Iechyd am wasanaethau a gaffaelir ar eu rhan. Mae'r manylion yn cael eu paratoi ar hyn o bryd.

Bydd y cyrff comisiynu presennol yn cael eu diddymu a bydd y ddeddfwriaeth hon yn sefydlu Cyd-bwyllgor Comisiynu newydd yn eu lle gan ddod i rym o 1 Ebrill 2024 ymlaen. Yn unol â'r broses penodiadau cyhoeddus, ceir costau cysylltiedig o ran recriwtio Cadeirydd ac Aelodau Lleyg y Cyd-bwyllgor newydd. Fodd bynnag, bydd y costau hyn yn rhan o'r adnoddau a'r cyllidebau presennol.

Mae'r gost fwyaf sylweddol yn debygol o fod yn gysylltiedig â rhaglen Datblygu Sefydliadol ar gyfer timau'r Cyd-bwyllgor a fydd hefyd yn cael ei chynnwys yn yr adnoddau a'r cyllidebau presennol.

Mae'r Cyd-bwyllgorau presennol a'u timau eisoes yn gyfrifol am ddatblygu canllawiau, polisiau a gweithdrefnau ac mae'r gwaith hwn yn cael ei adolygu a'i ddiwygio fel y bo'n briodol yn rhan o'r rhaglen sefydlu. Bydd y gwaith hwn hefyd yn rhan o'r cyllidebau presennol.

Nid oes bwriad i symud i swyddfeydd newydd eraill gan y bydd y swyddfeydd presennol yn parhau i gael eu defnyddio.

Mae Rhaglen Newid Sefydliadol ffurfiol ar waith i ymgynghori, ymwneud a chyfathrebu â staff yr effeithir arnynt. Yn ogystal, mae byrddau iechyd a thimau yr effeithir arnynt yn sgil sefydlu'r Cyd-bwyllgor newydd i gyd yn cael eu cynnwys a'u cynrychioli yn strwythur y rhaglen drwyddo draw yn ogystal ag yn y Bwrdd Goruchwylio.

8. Asesu'r gystadleuaeth

Amherthnasol.

9. Adolygu ar ôl gweithredu

Bydd effeithiolrwydd y trefniadau newydd hyn yn cael ei adolygu'n barhaus a bydd y Cyd-bwyllgor yn cynnal hunanasesiad i lywio adroddiadau blynyddol y Byrddau Iechyd Lleol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu effeithiolrwydd y camau a weithredwyd mewn ymateb i argymhellion yr adolygiad annibynnol a Cymru Iachach.